**Cyfeirnod:** 5033A2025

**Dyddiad cyhoeddi:** Awst 2025

# Archwiliad o Gynllun Gwella 2025-26 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Cylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru rhif: W-FRSC(2021)07 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru barhau i adrodd yn erbyn Mesur Llywodraeth Leol 2009 nes bod Fframwaith Cenedlaethol newydd a threfniadau diwygiedig wedi'u cyflwyno. Mae Cylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru rhif: W-FRSC(2025)09 yn caniatáu i Awdurdodau gyflawni eu dyletswyddau cynllunio o dan y Mesur a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o fewn yr un cynllun. Ardystiolais y cynllun hwn ym mis Gorffennaf 2024 hefyd.

## Tystysgrif

Rwy'n ardystio, ar ôl ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024, fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Cyfrifoldebau priodol yr Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau er mwyn:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon berfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y dyddiad arall y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas archwiliad y Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, byddaf yn derbyn, ar yr amod y bydd awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ar gyflawnrwydd neu gywirdeb gwybodaeth, nac a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod, felly, yn cynnwys adolygiad o'r cynllun i ganfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd i wella.



**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Ysgrifennydd y Cabinet dros Tai a Llywodraeth Leol

Tim Buckle – Rheolwr Archwilio